**<u>Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL EUR 05-02 (p4)</u>**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **10 Gorffennaf 2002** |
| **Amser:** | **9:30am** |
| **Lleoliad:** | **Ystafelloedd Pwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Teitl:** | **PYSGODFEYDD - Y POLISI PYSGODFEYDD CYFFREDIN** |

**Pwrpas**

1. Cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar gynigion Comisiwn yr UE i wneud newidiadau i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

**Argymhelliad**

2. Bod y Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa bresennol.

**Y Cefndir**

3. Ddiwedd Mai, cyhoeddodd Comisiwn yr UE ei gynigion ar gyfer diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Roedd hyn yn dilyn Papur Gwyrdd gan y Comisiwn ym mis Ebrill 2001 a oedd yn nodi syniadau cychwynnol y Comisiwn ar ddiwygio'i Bapur Gwyrdd. Bu'n destun trafod ac ymgynghori helaeth gydag Aelod-wladwriaethau ac â'r diwydiant pysgota, gan gynnwys unigolion/grwpiau â diddordeb yng Nghymru. Mae'r cynigion diweddaraf hyn ar gael, bellach, i'r cyhoedd yng Nghymru ymgynghori arnynt ac rydym wedi gofyn i bobl fynegi eu barn erbyn 31 Awst. Rhoddir ystyriaeth i'r safbwyntiau hyn ynghyd â safbwyntiau a gaiff eu cyflwyno o rannau eraill o'r DU er mwyn llunio ymateb y DU, fel Aelod-wladwriaeth, i'r Comisiwn ddechrau'r hydref. Bydd y Comisiwn yn llunio ei gynigion terfynol erbyn diwedd y flwyddyn.

**Y cynigion**

4. Mae prif elfennau cynigion y Comisiwn yn rhoi sylw i'r meysydd allweddol canlynol:

- System well o warchod stociau pysgod;
- System well o ddiogelu dolffiniaid a morgwn;
- Mynd i'r afael â chapasiti gormodol llynges yr UE;
- Mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol pysgotwyr sy'n gorfod gadael pysgota;
- Gorfodi rheolaeth dynnach, fwy effeithiol;
- Sancsiynau llym, unffurf am dorri rheolau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin;
- System well o gynnwys budd-ddeiliaid yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

**Diwydiant Cymru**

5. Bach iawn fydd effaith andwyol cynigion y Comisiwn ar lynges gynhenid Cymru, sy'n cynnwys cychod llai na 10m gan mwyaf, ac sy'n pysgota am bysgod cregyn yn agos at y lan. Bydd yr effaith yn fwy ar y llond dwrn o gychod cynhenid sydd dros 10m, a'r 50 o gychod Eingl-Sbaenaidd, sy'n ffurfio gweddill llynges Cymru ar y môr, gan fod y Comisiwn yn ceisio lleihau'r sector cychod dros 10m yn sylweddol. Mae'r Comisiwn yn cynnig ymestyn y cynllun dadgomisiynu presennol er mwyn cyflawni'r toriadau hyn, ac mae wedi cynnig arian Ewropeaidd ychwanegol i'r diben hwnnw. Byddai pob rhan o'r llynges ar eu hennill o'r cynigion i roi mwy o ran i fudd-ddeiliaid wrth reoli stoc, a byddwn yn ceisio annog y diwydiant i gymryd rhan yn y Grwpiau Ymgynghorol Rhanbarthol arfaethedig. Byddai pob rhan o lynges Cymru hefyd yn elwa yn y tymor hir o'r mesurau arfaethedig ar gyfer cadw stoc.

**Cyllid**

6. Ni fydd yn bosibl inni asesu faint o arian ychwanegol y gallai fod ei angen er mwyn gweithredu cynigion terfynol y Comisiwn, hyd yn nes at ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd rhywfaint o arian ar gael, os bydd ei angen, o gronfa bresennol Amcan 1 yr UE, cyn belled â bod Dogfen Raglennu Sengl Amcan 1 Cymru yn cael ei diwygio yn Adolygiad Canol Tymor y flwyddyn nesaf. Mae'r Comisiwn wedi nodi y bydd arian dadgomisiynu ychwanegol ar gael. Nid ydym eto wedi derbyn manylion yr arian ychwanegol hwnnw, a bydd angen inni ystyried y goblygiadau ar gyfer darparu arian cyfatebol Aelod-wladwriaethol ychwanegol.

**Y Camau Nesaf**

7. Bydd Gweinidogion a swyddogion y Cynulliad yn cymryd rhan lawn yn yr ymarfer ymgynghori sy'n digwydd ar hyn o bryd ledled y DU, gan gynnwys trafodaethau gyda DEFRA a'r Adrannau Pysgodfeydd eraill i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ymateb y DU i'r Comisiwn. Deallwn fod y Comisiwn yn ystyried trefnu cyfarfodydd agored gyda physgotwyr, o bosibl yn ystod yr ymarfer ymgynghori presennol, ond bron yn sicr unwaith y bydd yr ymarfer wedi'i gwblhau, er mwyn trafod ei gynigion terfynol. Rydym wedi rhoi gwybod i'r Comisiwn y byddem yn cefnogi menter o'r fath ac yn cymryd camau i annog pysgotwyr Cymru i gymryd rhan lawn mewn unrhyw gyfarfodydd o'r fath. Rydym wedi dweud hefyd y byddai'n braf pe baent yn cael eu cynnal yng Nghymru neu mewn man sy'n hawdd i bysgotwyr Cymru ei gyrraedd.

**Glyn Perryman**

**Yr Is-adran Polisi Amaethyddol a Physgodfeydd 2**

**Est 3591**